407

# CAN NEWYDD

Yn dangos y mawr wahaniaeth sydd rhwng yr

# AMSER PRESENOL

A'R

# DYDDIAU GYNT,

Pan oedd ein hen Famgu yn bywioliaethu.

---

*I'w chanu ar y don a elwir Penrhywbedr.*

---

Yn awr gyfeillion mwynion mâd,
Trwy'ch cenad yn gytun,
Mi draethaf gân yn awr i'ch gwydd,
Gwrandewch yn rhwydd bob un ;
Sef y gwahaniaeth sydd yn awr
A'r amser gynt a fu,
Pan oedd pob rhai yn byw yn dda
Yn nyddiau fy Mamgu.

Mae'r ffarmwyr 'nawr dan ddirfawr bwn,
Dybygwn, yn y byd,
A'r creftwyr mwynion yn mhob man,
A'r Labrers gwan i gyd ;
A llawer tlawd o eisiau bwyd
Yn llefain dagrau 'n lli ;
'Does dim elusen 'nawr i'w chael,
Fel amser fy Mamgu.

Yr amser gynt y ffermwyr oedd
Fel brodyr yn mhob man,
'Doedd nemawr un mewn bryn na bro
Yn ceisio gwasgu'r gwan ;
Pob un mor hynod, er ei glod,
Rhoi cardod wrth ei dy,
Nid oedd dim son am Workhouse fawr
Yn amser fy Mamgu.

X2052300666

Doedd nemawr un y dyddiau gynt,
  Yn cydio maes wrth faes ;
Mae tair o ffermydd mawr yn awr
  Gan Jones o'r Biliglas ;
Fe gai'r tlawd y dyddiau gynt
  Le i gadw buwch neu ddwy ;
'Doedd fawr yn amser fy Mamgu
  O dlodion ar y plwy'.

'Nawr segur swyddwyr is y rhod
  Sy'n dyfod ddydd a nos,
Mae talu rhai'n yn nychu'r tlawd,
  Medd Dafydd Llwynygroes ;
Mae'r rhent a'r dreth a phob rhyw beth,
  Bron dwyn fy nghalon i,
Gwyn fyd na ddoe y byd i'w le,
  Fel dyddiau fy Mamgu.

Mae'r rhenti 'n fawr, pa le mae'r bai,
  Ar y meistri yn ddifeth ?
O, nage, 'n siwr, medd Sion Glandwr,
  Mae ar y ffarmwyr beth ;
Cs ffarm a fydd yn myn'd yn rhydd,
  Cewch weled naw neu ddeg,
Pob un yn codi arni'n dyn,
  'Dyw hyn ddim chwarau teg.

Fe ddylai'r ffarmwyr ar bob pryd
  Ochelyd hyn o waith,
A chofio'r holl dalmentoedd sydd
  Ar hyd y flwyddyn faith ;
'Rych chwi wrth addo rhenti mawr
  Yn gwasgu'r tlodion lu,
Nid felly 'r oedd y ffermwyr gynt
  Yn nyddiau fy Mamgu.

Fe dd'wedodd gwr o Lanfairfawr,
  'Rwy'n credu hyn fy hun,
Fod mwy o arian nag o sense
  Yn awr gan lawer dyn ;

Fe dâl y rhain yn ddigon rhwydd
  At segur swyddwyr sy,—
Fe fuasai'n chwith i wel'd y rhain
  Yn amser fy Mamgu.

Rhyw gyfraith newydd hynod iawn
  A ddaeth yn awr i'n rhan;
Mae'n debyg ichwi glywed son
  Am Thomas gwr Tynllan,
Ca'dd hwnw dalu coron gron
  Am biso wrth wal rhyw dy—
Fe fuasai chwerthin mawr am hyn
  Yn amser fy Mamgu.

Ond gwraig i hwn a ddaeth yn mlaen,
  Gan waeddi'n groch ei llais—
Ni thalswn i ddim pum swllt byth
  Serch pisio yn fy mais,
Mae hyny 'nawr yn arian mawr,
  Am biso i'r llawr yn lli ;
Nid oedd dim treth am daro dwr
  Yn amser fy Mamgu.

Gwisgoedd o waith cartref oedd
  Gan yr hen drigolion gynt,
Yn awr Orleans a bombazine,
  Yn sio yn y gwynt,
A phymtheg llath o quill net
  Ar ei capiau glwyais i,
Fe fuasai'r rhai'n fel bwbach brain
  Yn amser fy Mamgu.

Mae'n galed ar y merched bach,
  Wrth garu ar bob pryd,
Mae'r bechgyn yn dwyllodrus iawn,
  Er addo'n deg o hyd ;—
Os chwareiwch *rantingig* mewn gwres,
  Am witness, cofiwch chwi,
Mae mwy o dwyll yn awr i'w gael,
  Nag amser fy Mamgu.

Wel wfft i gyfraith gas fel hyn,
  Medd morwyn Gwarygraig,
Ni chaiff un mab fy mwynder i,
  Nes imi fyn'd yn wraig ;
Ac ar ol hyn, mewn gwely clyd,
  Mor hyfryd byddwn i,
Cawn chwarau 'n burion wrth ein bodd,
  Fel amser fy Mamgu.

Fe ddaw y wlad i'w lle ryw bryd,
  A hawddfyd llawnfyd llon,
Y bechgyn mwyn a'r merched fydd
  Heb neb yn brudd eu bron,
Caiff Twm o'r Shop i garu Siân—
  Roi cysan iddi yn ffri,
A dweyd wel dyma garu 'n iawn
  Fel amser fy Mamgu.

Dymunaf wel'd yr amser da
  'R un modd a'r dyddiau gynt,
A'r gwragedd ambell lasiad bach
  O frandi i dori 'r gwynt ;
A fflated mawr o eithaf tost,
  A the o'r tebot du,
A dweyd, mae'n awr yn dechreu dod
  Fel amser fy Mamgu.

Ar ol i'r amser ddod fel hyn,
  Fe fydd y Shopwr mawr,
Y Gof, a'r Taeliwr, Saer, a'r Gwydd,
  A'r Crydd a fydd fel cawr,
Yn gweiddi yn saesneg *now good bye,*
  I'r amser drwg a fu,
Mae wedi dod yn awr yn dda,
  Fel dyddiau fy Mamgu.

DAVID JONES, Llanybyther.